# Ymateb Cyngor Celfyddydau Cymru i Adroddiad Mapio'r Gymraeg 2019/20 gan Elen Ap Robert

## Cyflwyniad a chrynodeb

Ym mis Tachwedd 2019 roeddem ni wedi comisiynu ymchwil i faint a chryfder gweithgarwch celfyddydol Cymraeg ledled Cymru.

Cafodd y darn o ymchwil ei dendro yn Hydref 2019. Cynhaliwyd cyfarfod cychwynnol yn Ionawr 2020 gyda'r cynigydd llwyddiannus, Elen ap Robert. Gorffennodd y gwaith gyda chyflwyniad i Gyngor y Celfyddydau ym Medi 2020. Er nad oedd y pandemig ym Mawrth 2020 yn effeithio ar y rhan fwyaf o'r cyfnod ymchwilio, yr oedd yn ffactor nad oedd modd ei anwybyddu o Fawrth ymlaen. Y gwir amdani yw bod effaith gymdeithasol y pandemig - yr anallu i gymdeithasu ar lefel gymunedol, y symudiad i lwyfannau digidol a chau ysgolion, er enghraifft - wedi effeithio'n fawr iawn ar y Gymraeg. Mae'r argyfwng erbyn hyn wedi meddiannu ein bywyd.

Mae'n amlwg bod cryn amser ac ymdrech wedi mynd i ddatblygu'r adroddiad ymchwil gan Elen ap Robert a'r nifer o unigolion a sefydliadau a ymatebodd i'r galw am wybodaeth. Diolchwn i bawb am y syniadau, y cynigion o gymorth a'r anogaeth inni wella ein cefnogaeth.

Dyma'n hymateb ni i ganfyddiadau'r adroddiad. Rydym ni'n derbyn argymhellion yr adroddiad yn llwyr a chydag ymdeimlad o frys. Rydym ni wedi ymrwymo'n llwyr i weithredu arnynt gyda'r partneriaid a'r darpar bartneriaid y mae'r adroddiad yn tynnu sylw atynt.

I ni mae'r adroddiad yn gam pwysig ymlaen.

Nid yw bellach yn dderbyniol inni ymateb yn unig i ddatblygiadau gyda'r Gymraeg, rhaid inni fod yn rhagweithiol yn y maes. Mae gennym swyddogaeth glir o ran datblygu'r Gymraeg, annog ei defnydd a phwysleisio ei gwerth ar bob cyfle gan ddod â chreadigrwydd a dychymyg i'r frwydr i gadw'r iaith. Rhaid inni gael gwell dealltwriaeth o faint ac ansawdd y gwaith Cymraeg rydym ni'n ei ariannu ochr yn ochr â'i effeithiolrwydd drwy'r data a gasglwn. Rhaid inni wella'r ffyrdd yr ydym ni'n cefnogi celfyddydau Cymru i goleddu dwyieithrwydd a sylweddoli'r manteision o wneud hynny mewn Cymru ryngadrannol gyfoes ynghanol byd amlieithog.

Isod, rydym ni'n egluro sut rydym ni'n bwriadu gwneud hyn. Mae'r rhain yn gamau gweithredu lefel uchel sydd wedi'u cynllunio i roi cyfeiriad ac amserlen glir ar gyfer camau strategol pwysig. Maent yn cynnig ffordd o ddwyn ein hunain i gyfrif am ddatblygu'r gwaith hanfodol yma.

Nid yw’r camau’n ceisio mynd i'r afael â phob agwedd ar ein gwaith datblygu a fydd yn cael ei bywiogi a'i chryfhau o ganlyniad i'r adroddiad. Ond byddwn ni’n sicrhau y bydd ein Hadroddiad Blynyddol ar y Gymraeg o hyn ymlaen yn craffu arnynt fel y gallwn olrhain ein cynnydd.

**Gwerthfawrogi a hyrwyddo'r Gymraeg: ein hymrwymiad**

Mae'r iaith yn darparu'r modd i ddeall a mwynhau llenyddiaeth a diwylliant eithriadol o gyfoethog. Mae'r celfyddydau'n ffynnu ar hyn ac yn chwarae rhan hanfodol wrth wraidd bywyd Cymru.

Rydym ni am sicrhau bod cyfleoedd celfyddydol Cymraeg ar gael i greu, mwynhau, cymryd rhan a gweithio a hynny mor rhwydd drwy’r Gymraeg â thrwy’r Saesneg. Mae'r Gymraeg yn alluogydd dinesig ac yn rym diwylliannol ar gyfer cyfoeth ac amrywiaeth.

O ystyried ein hymrwymiad, dros flynyddoedd lawer, i ddatblygu ein hallbwn yn y Gymraeg, mae'n siomedig nad oeddem ni’n gallu gwneud cynnydd digonol. Gwyddom fod yn rhaid i hyn newid. Mae'r ymchwil yn cadarnhau'r ffaith drist nad yw llawer o bobl yn gallu mynychu a chymryd rhan mewn digwyddiadau a gweithgareddau Cymraeg yn agos at eu cartref. Yn benodol, rydym ni’n ymwybodol bod dosbarthiad presennol cyfleoedd ledled Cymru yn anwastad. Ac mae'r ddarpariaeth yn ein dinasoedd allweddol – Caerdydd, Abertawe a Chasnewydd – yn wael, o'i chymharu â'r boblogaeth. Heb fynediad hawdd a rheolaidd i weithgarwch Cymraeg, mae'n anodd datblygu a chynnal y defnydd o’r iaith. Mae’n her yr ydym ni’n benderfynol o fynd i’r afael â hi.

**Y cyd-destun**

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi neges glir yn ei strategaeth Gymraeg, Cymraeg 2050, sef uchelgais i gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

I gefnogi hyn, mae Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol yn disgrifio’r Gymraeg fel un o'i nodau llesiant ("Cymru lle mae diwylliant a’r Gymraeg yn ffynnu"). Mae gan y Cyngor ran glir i'w chwarae i gefnogi a hyrwyddo agenda’r Llywodraeth. Rydym ni hefyd yn cael cyfle i ddatblygu'r gwaith drwy gymryd rhan yn Negawd Ieithoedd Cynhenid UNESCO.

Datblygu gwaith Cymraeg yw un o flaenoriaethau yn ein cynllun corfforaethol, Er Budd Pawb, ein strategaeth Loteri Genedlaethol newydd a'n rhaglenni ariannu.

A ninnau’n gorff cyhoeddus, mae gennym gyfrifoldebau cyfreithiol i fodloni safonau'r Gymraeg ym Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ac mae gennym bolisi i Hyrwyddo a hwyluso’r defnydd o’r Gymraeg

Rydym ni’n gweithio drwy wahanol bartneriaid a rhanddeiliaid, yn ogystal â'r artistiaid a'r sefydliadau celfyddydol yr ydym ni’n eu hariannu. Rydym ni’n ymwybodol nad yw ein

huchelgais bob amser mor glir i eraill, ac mae'r cynnydd o ran cyflawni ein nodau wedi bod yn arafach nag y byddem wedi'i ddymuno.

Mae'n hymchwil yn dangos nad oes digon o waith yn y Gymraeg rydym ni'n ei ariannu, drwy ein Portffolio neu'r prosiectau gydag arian y Loteri Genedlaethol. Rydym ni hefyd yn ymwybodol nad yw llawer o siaradwyr Cymraeg, am ba reswm bynnag, yn symud ymlaen i gael gyrfa yn y celfyddydau yng Nghymru. Mae angen inni ddeall pam mae hyn yn wir a dod o hyd i atebion ymarferol.

Nodwn hefyd amrywiaeth y cymunedau Cymraeg a chydnabod nad oes un dull sy'n addas i bawb. Rydym ni'n ymwybodol bod angen inni ystyried pa mor agored a hygyrch yw gweithgarwch ac rydym ni am ymrwymo i weithio gyda phartneriaid i ddatblygu dull cyfartal a chynhwysol o weithio yn y Gymraeg. Byddai dull rhyngadrannol o ymdrin â'n huchelgais o ran y Gymraeg yn ymestyn cyrhaeddiad y ddarpariaeth gelfyddydol Gymraeg i gynulleidfaoedd amrywiol. Mae'r ddarpariaeth hefyd yn haeddu ein cefnogaeth ar draws yr holl nodweddion gwarchodedig. Rydym ni hefyd yn awyddus i gefnogi enw da rhyngwladol Cymru am ei llwyddiant cymharol o ran trosglwyddo'r iaith. Credwn fod y celfyddydau'n chwarae rhan bwysig yn hyn. Er ein bod yn credu'n gryf mewn hyrwyddo'r celfyddydau'n ddwyieithog, rydym ni hefyd yn awyddus i dyfu natur ieithyddol unigryw Cymru er mwyn annog mwy fyth o amrywiaeth ieithyddol yng nghelfyddydau Cymru ac arloesi o ran defnyddio sawl iaith yn greadigol.

Blaenoriaeth arall yw llwybrau gyrfa ar gyfer artistiaid a hwyluswyr. Mae'n cyd-fynd yn agos â'r gwaith rydym ni'n ei ddatblygu gyda'n tîm Dysgu Creadigol a'r gwaith y maent yn ei wneud i gefnogi'r gwaith o gyflwyno cwricwlwm newydd yn ysgolion Cymru. Mae her ddeublyg yma:

- sicrhau dyfnder i'r cynnig sydd ar gael i'r rhai sydd am ddatblygu sgiliau ieithyddol a chelfyddydol
- gwella'r rhagolygon (a'r cyfleoedd) i'r rhai sydd am ddatblygu gyrfa yn Gymraeg

Mae gan y Portffolio, fel ein prif bartneriaid, ran bwysig i'w chwarae yn hyn o beth a byddwn ni'n dwysáu ein dull o weithio gyda nhw i sicrhau newid.

Bydd ystyriaethau o ran y Gymraeg hefyd yn chwarae rhan allweddol yn ein penderfyniadau yn yr Adolygiad Buddsoddi, sef ein harchwiliad bob pum mlynedd o'r Portffolio (y rhwydwaith dros Gymru o sefydliadau celfyddydol allweddol sy'n derbyn arian refeniw blynyddol oddi wrthym). Mae'r Adolygiad Buddsoddi 2020 wedi'i ohirio oherwydd y pandemig. Bydd yn dechrau yn awr yn 2021 gan ddod i ben gyda Phortffolio newydd a fydd ar waith o 1 Ebrill 2023 ymlaen.

Ochr yn ochr â'r ymchwil, rydym ni wedi comisiynu gwaith sy'n edrych ar farchnata gwaith Cymraeg. Gobeithiwn gyhoeddi yr ymchwil yn chwarter olaf 2020/21. Disgwyliwn i'w ganfyddiadau hefyd lywio ein gwaith o ddatblygu'r Gymraeg.

## Amcanion yr ymchwil

Amcanion penodol yr ymchwil Fapio Gweithgareddau Celfyddydol Cymraeg oedd:

- Rhoi darlun cynhwysfawr o weithgarwch celfyddydol Cymraeg ledled Cymru, gan ganolbwyntio'n benodol ar weithgarwch nad yw'n cael ei ariannu gan y Cyngor. Dylai gynnwys cyfeiriad at y sector datblygu iaith yng Nghymru
- Datblygu rhestr o bartneriaid a chysylltwyr/dylanwadwyr posibl ar gyfer ein gwaith (mae hyn i gynnwys y rhai y tu allan i'n cylch dylanwad arferol)
- Datblygu rhestr o argymhellion/cyfleoedd sy'n gysylltiedig â'n gwaith presennol a chanfyddiadau'r ymchwil
- Ein cefnogi i ddatblygu ein gweledigaeth ar gyfer y Gymraeg
- Datblygu cynllun gweithredu a fydd yn ein cefnogi i gyflawni hyn

## Ein hymateb

Rydym ni'n croesawu a chymeradwyo canfyddiadau'r adroddiad. Rydym ni wedi ymrwymo i weithredu'r argymhellion yn brydlon.

Rydym ni'n cydnabod bod llawer i'w wneud. Ni allwn wneud hyn ar ein pen ein hunain. Mae ffocws yr adroddiad ar weithio mewn partneriaeth yn ddyhead yr ydym ni'n ei rannu. Mae llawer yn y sector iaith yn teimlo'r un fath. Mae'r ymchwil yn rhoi rhestr gynhwysfawr inni o bartneriaid posibl sy'n barod i weithio gyda ni.

## Yr argymhellion

Mae'r adroddiad yn gwneud 10 argymhelliad sy'n cyd-fynd ag amcanion ein cynllun corfforaethol *Er Budd Pawb*. Isod dyma'n hymateb i bob un.

| **Argymhelliad 1** | **"Y Cyngor i arwain ar greu partneriaeth strategol hirdymor ar draws sectorau a sefydlu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng sector y celfyddydau a sector y Gymraeg, gan fabwysiadu model arian cyfatebol ar gyfer mentrau penodol y cytunwyd arnynt a phrosiectau cenedlaethol"** |
|---|---|
| Beth a wnawn? | • Sefydlu cyfarfod ar gyfer sefydliadau allweddol yn y sector cyhoeddus a nodwyd yn yr ymchwil i gwrdd a thrafod opsiynau i gydweithio<br>• Hwyluso'r gwaith o ddatblygu partneriaeth strategol gyda nodau clir ar gyfer hyrwyddo gweithgarwch yn y Gymraeg<br>• Ceisio sefydlu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhyngom ni a'r rhwydwaith cyn diwedd blwyddyn ariannol 2020/21<br>• Gwnewch yn siŵr bod ein gweithgareddau'n cefnogi ein hymrwymiad i Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ac yn adrodd yn ôl amdanynt |
| Erbyn pryd? | • Cynnal y cyfarfodydd cychwynnol erbyn Tachwedd 2020<br>• Partneriaeth strategol ar waith erbyn diwedd Mawrth 2021<br>• Llunio Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth erbyn diwedd Mawrth 2021 |

| Argymhelliad 2 | "Y Cyngor/sector datblygu'r Gymraeg i sefydlu consortiwm a rhwydwaith am y Gymraeg sy'n cynnwys aelodau o sector y Gymraeg a'r Portffolio i weithredu blaenoriaethau y cytunwyd arnynt a datblygu cydweithio agosach a rhannu arbenigedd a gwybodaeth." |
|---|---|
| Beth a wnawn? | • Gwahodd sefydliadau allweddol a nodwyd yn yr ymchwil o'r Portffolio a'r sector Cymraeg i gyfarfod i drafod opsiynau ar gyfer cydweithio creadigol<br>• Os gellir cytuno ar gydamcanion rhwng partneriaid, byddwn ni'n annog a chefnogi'r datblygiad ffurfiol o Gonsortiwm Celfyddydol Cymraeg. Ein nod fyddai i hyn ddatblygu rhestr o syniadau creadigol posibl i'w datblygu yn unol â'n hamcanion<br>• Sicrhau bod y consortiwm yn amrywiol ac yn cynnwys cynrychiolwyr Cymraeg o'r holl nodweddion gwarchodedig |
| Erbyn pryd? | • Cyfarfod cychwynnol erbyn diwedd Tachwedd 2020<br>• Cytuno a fyddai'n bosibl bwrw ymlaen fel consortiwm erbyn Ionawr 2021 |

| Argymhelliad 3 | "Y Cyngor a'r sector datblygu iaith i greu ar y cyd swydd newydd, Rheolwr Datblygu'r Celfyddydau Cymraeg, i arwain ar weithio'n agosach yn genedlaethol/ar draws y sector" |
|---|---|
| Beth a wnawn? | • Cynyddu ein gallu i gefnogi datblygiadau yn y Gymraeg a byddwn ni'n clustnodi arian i gefnogi'r argymhelliad yn y flwyddyn ariannol bresennol<br>• Mewn ymgynghoriad â'r darpar bartneriaid a nodwyd yn yr adroddiad (ac o bosibl y Bartneriaeth Strategol os caiff ei sefydlu'n gyflym), byddwn ni'n ymchwilio i'r ffordd fwyaf cost effeithiol o gyflwyno'r argymhelliad fel mater o frys |
| Erbyn pryd? | • Ymchwiliad i'w gynnal yn hydref 2020<br>• Cyllideb sydd wedi'i neilltuo o arian 2020/21<br>• Swydd yn ei lle erbyn diwedd y flwyddyn ariannol |

| Argymhelliad 4 | "Y Cyngor i'w wneud yn amod bod chwarter o bob bwrdd yn y Portffolio yn siaradwyr Cymraeg" |
|---|---|
| Beth a wnawn? | • Sicrhau bod byrddau'r holl Bortffolio yn cynrychioli'r cyhoedd y maent yn eu gwasanaethu a hyrwyddo cydraddoldeb. (Gall 25% fod yn afrealistig i rai sefydliadau gan ddibynnu ar eu lleoliad a'u diben. Felly, rydym ni'n croesawu ysbryd yr argymhelliad ond byddwn ni'n dod o hyd i ddull amgen i osod cwota a chanran)<br><br>• Rydym ni'n cydnabod y dylanwad sydd gan unrhyw fwrdd ar ei sefydliad. Rydym ni hefyd yn cydnabod pwysigrwydd cael profiad byw o'r Gymraeg ar fyrddau. Gan fod y cynnydd cyffredinol i fyrddau cynhwysol ac amrywiol wedi bod yn annerbyniol o araf, byddwn ni'n fwy rhagweithiol yn ein galwadau ynghylch cyfansoddiad byrddau'r Portffolio fel eu bod yn dod yn fwy cynrychioliadol a gwybodus am anghenion a buddiannau'r rhai y maent yn eu gwasanaethu. Caiff hyn ei gynnwys yn y cytundebau ariannu blynyddol ar gyfer 2021/22 a bydd yn amod i gael eu hariannu |
| Erbyn pryd? | • Byddwn ni'n cyhoeddi canllawiau clir am gyfansoddiad byrddau a strwythurau llywodraethu erbyn Ebrill 2021 |

| Argymhelliad 5 | "Y Cyngor i sicrhau newid sylweddol yn yr ymwybyddiaeth o'r Gymraeg, ei diwylliant a'i hanes yn sector y celfyddydau gan ddechrau gyda chyflwyniad i'r Gymraeg, ei diwylliant a'i hanes dan arweiniad yr Athro Peredur Lynch a'r Athro Mererid Hopwood ar gyfer holl staff y Cyngor" |
|---|---|
| Beth a wnawn? | • Sicrhau bod rhaglen ddysgu ar-lein ar hanes a chyd-destun diwylliannol Cymru ar gael<br>• Comisiynu siaradwyr ysbrydoledig i baratoi sgyrsiau clyweledol i'w rhannu |
| Erbyn pryd? | • Mawrth 2021 |

| | |
|---|---|
| Argymhelliad 6 | "Y Cyngor i gynnwys yn ei strategaeth ehangach ar gyfer y Gymraeg strategaeth 5 mlynedd feiddgar ac ysbrydoledig (ynghyd â chynllun gweithredu gyda thargedau mesuradwy) yn benodol i gynyddu lefel, amrywiaeth a chysondeb cynnyrch/cynnwys celfyddydol byw sydd ar gael i gynulleidfaoedd ledled Cymru." |
| Beth a wnawn? | • Datblygu Datganiad am ein Gweledigaeth newydd sy’n ysbrydoledig a deinamig i ddatblygu'r Gymraeg wrth ymateb i'r sefyllfa frys. Bydd yn dangos sut y gallwn ysgogi pob agwedd ar ein gwaith i gefnogi'r Gymraeg<br>• Gweithio gyda'n Portffolio a'n tîm ymchwil i ddatblygu targedau mesuradwy ar gyfer cysondeb ac ansawdd y cynnyrch sydd ar gael i gynulleidfaoedd a chyfranogwyr Cymraeg fel y gallwn gydweithio i ddangos bod gwir welliant<br>• Gweithio'n agos gyda Rhwydwaith Strategol y Gymraeg a’r Consortiwm Celfyddydol (pan gaiff ei sefydlu) i weithio mewn partneriaeth am y Weledigaeth i sicrhau ein bod yn defnyddio'r 5 Ffordd o Weithio<br>• Defnyddio ein polisi i Hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg i annog gwell craffu ar geisiadau'r Loteri Genedlaethol i asesu eu heffaith ar y Gymraeg<br>• Sicrhau ymrwymiad i gydraddoldeb, cynhwysiant a hygyrchedd yn ein holl weithgareddau – mae’r rhain yr un mor bwysig yn y Gymraeg hefyd<br>• Gweledigaeth i gynnwys cyfraniad Cymru at ddiogelu amrywiaeth ieithyddol fel rhan o nodau Lles a Chyfrifoldeb Byd-eang y Cenhedloedd Unedig |
| Erbyn pryd? | • Llunio Datganiad o Weledigaeth cyn gynted â phosibl<br>• Casglu gwell data gan y system rheoli grantiau newydd erbyn Ionawr 2021<br>• Datblygu prosiect UNESCO gyda Llywodraeth Cymru erbyn Mawrth 2021<br>• Mae ein polisi ar gyfer Hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg (fel sy'n ofynnol gan Safon 90 Mesur y Gymraeg) eisoes wedi'i ymgorffori yn ein gwaith o roi grantiau |

| Argymhelliad 7 | "Datblygu llwybrau clir a chreadigol i ddatblygu gyrfa gynaliadwy yn y celfyddydau yn y Gymraeg gyda'r sector Addysg Bellach/Addysg Uwch, Coleg Cerdd a Drama Cymru, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a rhaglen Ysgolion Creadigol y Cyngor." |
|---|---|
| Beth a wnawn? | • Datblygu trafodaethau yn y Rhwydwaith Strategol sy'n canolbwyntio ar lwybrau creadigol drwy'r Gymraeg<br>• Sicrhau bod darpariaeth a chyfleoedd Cymraeg yn cael eu hymgorffori'n briodol yn ein rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau<br>• Parhau i weithio i ddatblygu atebion dychmygus gyda phartneriaid allweddol ac unigolion/gweithwyr llawrydd |
| Erbyn pryd? | • Medi 2021 |

| Argymhelliad 8 | "Y Cyngor i sefydlu a rheoli'n barhaus gronfa ddata ganolog, ddeinamig o ymarferwyr/artistiaid Cymraeg i 'ddarparu gwybodaeth a chyngor arbenigol am y celfyddydau' (o gynllun corfforaethol y Cyngor) ac i nodi'r waelodlin bresennol" |
|---|---|
| Beth a wnawn? | • Ystyried materion o ran y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol a allai effeithio ar ein gallu i weithredu'r argymhelliad<br>• Sefydlu'r waelodlin bresennol yn fewnol<br>• Gweithio gyda Llywodraeth Cymru drwy ei Haddewid Llawrydd ynghylch posibiliadau'r argymhelliad |
| Erbyn pryd? | • Rhagfyr 2020 |

| Argymhelliad 9 | "Cynyddu nifer yr ymarferwyr Cymraeg yn sylweddol gan ganran sydd wedi cytuno arni" |
|---|---|
| Beth a wnawn? | • Adolygu ar frys sut y bydd modd i weithredu'r argymhelliad drwy ein rhaglen Llwybrau Creadigol unwaith y bydd gwaelodlin gywir wedi'i sefydlu<br>• Cyflymu ein gwaith o gefnogi prentisiaid, cyfleoedd mentora a phrofiad gwaith drwy'r Gymraeg |
| Erbyn pryd? | • Cynnwys yr argymhelliad yn y cynllun gweithredol erbyn Ebrill 2021 |

| Argymhelliad 10 | "Y Cyngor i rannu â'r sector wybodaeth am yr ymarfer gorau ym maes marchnata Cymraeg i gynulleidfaoedd Cymraeg ac ymgymryd ag ymchwil gysylltiedig i anghenion cynulleidfaoedd Cymraeg." |
|---|---|
| Beth a wnawn? | • Rydym eisoes wedi comisiynu darn o ymchwil i farchnata Cymraeg. Daw'r prosiect i ben yn hydref 2020 a byddwn wedyn yn datblygu ein hymateb a'n cynllun gweithredu cysylltiedig i yrru'r agenda yn ei blaen yn y modd mwyaf priodol<br><br>• Fel rhan o'n gwaith i fodloni Safon 90 o Fesurau'r Gymraeg, rydym ni wedi datblygu pecyn offer sy'n hyrwyddo ymarfer da<br><br>• Dylai gwell partneriaethau â sector y Gymraeg ein galluogi i ddefnyddio datblygiadau academaidd, ymarferol a thechnolegol yn brydlon ac ymestyn eu proffil a'u defnydd yn y gymuned gelfyddydol<br><br>• Fel mater o frys, dod â rhagor o greadigrwydd a dychymyg at y gwaith |
| Erbyn pryd? | • Ebrill 2021<br>• Pecyn offer i gefnogi Gweithio'n Ddwyieithog sydd eisoes yn fyw |

**Casgliad**

Mae'r dasg sydd o'n blaenau yn enfawr, ond rydym ni’n hyderus y gallwn, wrth ddatblygu partneriaethau cryf a chreu gallu penodol ac arbenigol, gyflawni ein huchelgais mewn modd cydweithiol a chynhwysol.

Mae’r pandemig wedi cyflwyno sawl her inni, ond dyma’r adeg iawn inni ymrwymo o'r newydd i'r daith. Rydym ni’n cydnabod ein bod ni, fel llawer un arall, yn dechrau edrych ar ein camau nesaf i gefnogi creu Cymru well a mwy cynhwysol sy'n dathlu ei hamrywiaeth a'i natur unigryw. Mae'r adroddiad yn gam pwysig ar y daith.

Mae gan y Gymraeg a diwylliant ran allweddol i'w chwarae wrth greu Cymru well yn y dyfodol. Rydym ni wedi ymrwymo i fod yn rhan allweddol o yrru'r agenda yn ei blaen. Mae ein hiaith yn rhan o'n hunaniaeth fel cenedl ac rydym ni’n cydnabod ein swyddogaeth fel Cyngor Celfyddydau i feithrin hyn a’i ymgorffori. Wrth inni fentro i ddyfodol annirnad ar ôl y pandemig, mae'r amgylchedd yn milwrio yn erbyn meithrin y Gymraeg. Nawr yw’r amser i weithredu ar frys.

Awst 2020